

**Cofnodion Cyngor Cymuned Llangywer  
Mawrth 15, 2016**

**Presennol:** Emyr Jones (Cadeirydd), John Morris, Geraint Roberts, Tyly Roberts, W D Williams, Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Lis Puw (Clerc)

1. Croesawodd Emyr Jones bawb i'r cyfarfod a derbyniwyd ymddiheuriad gan Eleri Jones.
2. Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. Derbyniwyd datganiadau buddiant ym mater *7b Ceisiadau am Grant* gan Emyr Jones, Dafydd Williams a Tyly Roberts.
4. Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod Ionawr 11eg, 2016.
5. **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** Dywedodd Alan Jones Evans ei fod wedi trafod mater cyflwr ffordd Glyn Bach a Bryn Bedwog gyda'r Swyddogion a chael cadarnhad y bydd gwaith yn cael ei wneud ar wyneb y ffordd.

Mynychodd sawl cyfarfod gyda Swyddogion ar fater biniau halen. Mae cyfaddawd ar y gorwel gyda meini prawf penodol ar gyfer cyflenwi halen a fydd o gymorth i ardaloedd serth cefn gwlad.

Mae wedi cynnal sawl cyfarfod gyda swyddogion, gan gynnwys cyfarfod ar y safle, i drafod biniau ail-gylchu'r Glyn, gan eu bod yn denu sbwriel o du allan i'r ardal ac yn gorlenwi. Mae'n fwriad i geisio treialu safle arall.

6. **Adroddiad o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru:** adroddodd y Clerc iddi fynychu fel dirprwy i'r Cadeirydd. Rhoddodd Bethan Jones Parry gyflwyniad ar y cais i ddynodi ardal lechi Gwynedd yn Safle Treftadaeth Byd-eang. Os bydd y cais yn un llwyddiannus fe ddaw swyddi da a chyfleoedd ehangach i'r economi leol.

**7. Materion ariannol:**

- a. Derbyniwyd gwybodaeth am y sefyllfa ariannol bresennol a chytunwyd fod y gwariant yn parhau i gydweddu gyda'r gyllideb. Cytunwyd y dylid cadw o fewn y gyllideb wrth wneud y cyfraniadau blynyddol.

- b. Cytunwyd i ofyn i John Roberts i archwilio'r cyfrifon gan roi sylw i faterion ariannol y fynwent.

- c. Cytunwyd i wneud y cyfraniadau canlynol:

Neuadd Bentref Llangywer	£550
Ffederasiwn Meirionnydd i Glybiau Ffermwyr Ifanc	£50
Gweithgareddau Lles yn y Henblas	£136.50
Cymdeithas Rhieni Ysgol y Berwyn (cronfa bws mini)	£50

- d. Cytunwyd i dalu aelodaeth Un Llais Cymru (£35)

e. Derbyniwyd gwybodaeth gan HMRC a chytunwyd i dalu cyflog y Clerc.

8. **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned** - dim

9. **Partneriaeth Penllyn:** Adroddodd y Cynrychiolwyr am y drafodaeth gyda Chyngor Gwynedd am ba wasanaethau eraill y gellid eu cynnig.

10. **Gohebiaeth:**

i. **Parc Cenedlaethol Eryri:**

Cymeradwywyd Cais NP5/70/144 i drosi adeilad allanol yn lety gwyliau ym Mryniau Golau, Llangywer ar yr amod fod y cynlluniau yn cydymffurfio gydag egwyddorion cyllunio'r Parc ac yn cydweddu a'r ardal.

Cadarnhawyd yn ffurfiol yr ymgynghoriad ffôn 16/2/16 ar gais NP5/70/143 yn cymeradwyo gosod cynllun trydan dŵr yn Rhyd Fudr (Nant Glas) Llanuwchllyn.

ii. **Cyngor Gwynedd:** Derbyniwyd adroddiad o gyfarfod Her Gwynedd a fynychwyd gan Tyly Roberts, Alan Jones Evans a'r Clerc.

iii. **Llywodraeth Cymru** - Derbyniwyd gwybodaeth am:

- Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Derbyn gwybodaeth am Ddeddf Cynllunio Cymru
- Derbyn gwybodaeth am raddfeydd costau a threuliau Cyngorwyr
- Côt Ymddygiad o Ebrill 2016

iv. **Heddlu:** Derbyniwyd gwahoddiad am gysylltiadau gyda'r heddlu.

v. **Erail:** Derbyniwyd gwybodaeth am Ras yr Iaith

Nodwyd y gwahoddiad i arddwest ym Mhlas Buckingham.

11. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 9/5/16